# Y Chwildro Diwydiannol

Taith gerdded yn dechrau ym Mharc Fictoria ac yn symud i lawr i Church Road cyn gorffen ger yr Awyrell Nwy. Dysgwch am hanes Tregatwg a'r chwildro diwydiannol yma.

**Croeso i'n taith gerdded. Ydych chi'n barod i gerdded yn ôl mewn amser?**



Dechreuwch ym Mharc Fictoria a cherddwch draw at y safle band.

**Parc Fictoria**
Croeso i Dregatwg. Dros 140 o flynyddoedd yn ôl, pentref amaethyddol bach oedd hwn yng nghanol cefn gwlad agored. Roedd ganddo dri chapel, swyddfa bost, siop fara, siop gig, efail, ysgol a llond llaw o dafarndai.

Rydych chi'n sefyll ym Mharc Fictoria. Pam ydych chi'n credu ei fod yn cael ei alw'n barc Fictoria? Cafodd y parc hwn ei greu gan y Fictoriaid a'i enwi ar ôl y Frenhines Fictoria. Roedd y Fictoriaid yn credu bod hamddena ac awyr iach yn bwysig iawn a'u bod yn gwella iechyd pobl. Adeiladon nhw barciau ym mhob tref newydd, gan blannu blodau a choed dieithr. Mae yna goeden ryfedd yn y parc. Ydych chi'n gallu dod o hyd iddi? Cas gan Fwnci yw'r enw ar y goeden.

Edrychwch o'ch cwmpas. Mae Tregatwg yn edrych yn wahanol iawn nawr. Mae wedi cael ei ddiwydianeiddio. Beth mae hyn yn ei olygu?
Mae diwydianeiddio yn golygu datblygu diwydiannau mewn gwlad neu ranbarth, felly llawer mwy o leoedd newydd i weithio ynddynt, fel y Dociau.

Allwch chi ddod o hyd i'r Dociau? Edrychwch draw o'r safle band.
Cyn i'r dociau gael eu hadeiladu, môr oedd yr ardal i'r de o'r rheilffordd oddi tanom ni. Ar lanw uchel, fyddech chi wedi gallu nofio yn Sgwâr Weston!

**Comisiwn y Dociau**
Ym 1881 roedd Tregatwg ar fin newid am byth oherwydd penderfynodd yr Arglwydd Windsor, mab hynaf Iarll Plymouth a David Davies, sylfaenydd Ocean Collieries adeiladu Doc yma.

Mae De Cymru yn enwog am lo. Ydych chi erioed wedi gweld glo?
Craig ddu neu frown yw glo y gallwch ei llosgi i ryddhau ynni ar ffurf gwres. Mae glo yn cael ei ddefnyddio'n aml i greu trydan. Arferai glowyr gloddio am lo yma ers talwm ac roedd yn cael ei ddefnyddio ar hyd a lled y byd. Roedd angen cludo'r glo a dyna pam yr adeiladwyd y Dociau.



**Pwy yw David Davies?**
Ganed David Davies yn y 19eg Ganrif ac roedd yn Gymro i'r carn. Efallai eich bod wedi sylwi ar gerflun ohono yn sefyll yn falch y tu allan i Swyddfa'r Dociau, yn dal Comisiwn y Dociau. Cafodd y syniad i adeiladu'r dociau a chysylltu'r Barri â thraciau rheilffordd newydd. Cymerodd amser i'r cynlluniau gael eu cymeradwyo, ond cafodd y prosiect ei gwblhau ym 1889.

Bu farw David Davies ym 1890, flwyddyn ar ôl ei lwyddiant mwyaf. Ocean Coal Company Ltd. ar yr adeg hon oedd y cwmni glo mwyaf oedd yn dosbarthu ar draws y byd i gyd.

Gadewch y parc a cherddwch tuag at St Oswald's Road.

**St Oswald's Road**

Efallai eich bod wedi clywed am Sant Barrwg a Sant Cadog, ond a ydych chi erioed wedi clywed am Sant Oswald? Naddo, dydy e ddim yn bodoli! Roedd y stryd hon i fod i gael ei henwi ar ôl Oswald Evans, yr haearnwerthwr, a adeiladodd y tŷ cyntaf ar y stryd. Gwnaeth Clerc y Dref gamgymeriad wrth ysgrifennu enw newydd y stryd, gan wneud Oswald yn Saint ar ddamwain.

Cerddwch ar hyd Heol Parc Fictoria tuag at Church Road.

Y Meincnod

Ar eich ffordd i lawr i Church Road, edrychwch o'ch cwmpas. Allwch chi weld symbol wedi'i gerfio yn y wal? Mae'n edrych fel llinell gyda saeth oddi tani. Mae'r symbol hwn yn nod a ddefnyddiwyd gan syrfewyr ordnans (pobl sy'n creu mapiau) hyd at 1993 i nodi uchder ar fap. Byddai'r uchder yn cael ei fesur mewn perthynas â lefel y môr. Cafodd y dref ei hadeiladu mor gyflym, roedd yn rhaid i'r syrfewyr gadw i fyny gyda chreu mapiau cywir o'r dref.

Tynnwch lun o'r symbol:

**Church Road**

Edrychwch ar y tai. Ydych chi'n sylwi ar unrhyw beth? Allwch chi weld patrwm uwchben y drysau a'r ffenestri?

Rhowch gynnig ar dynnu llun siapiau'r ddeilen yma:





Rydyn ni'n credu yr oedd y Saeson oedd yn byw ar y stryd hon yn byw mewn tai heb addurn uwchben eu drysau ac roedd y Cymry yn byw mewn tai ag addurn. Yn ôl pob sôn, roedd y Cymry yn defnyddio'r patrwm i gadw'r ysbrydion drwg i ffwrdd.

Mae gan Gymru lawer o ofergoelion ac mae pobl wedi ysgrifennu amdanynt ers amser maith. Yn ystod y 19eg ganrif roedd y bobl oedd yn byw yng nghefn gwlad Sir Forgannwg, yn enwedig y bobl hŷn 'yn credu'n gryf mewn ysbrydion, rhybuddion a chanhwyllau corff.' Golau'n neidio yr oedd pobl yn meddwl ei bod nhw'n ei weld oedd cannwyll corff, ac roedden nhw'n credu ei fod yn arwydd y byddai rhywun yn marw cyn bo hir. Roedd pobl ledled Cymru, nid yn unig yn y Barri a Sir Forgannwg, yn credu hyn.

Ydych chi'n sylwi ar rywbeth arall ar waelod y tai?

**Iard Frics Coldbrook**

Nid yn bell o'r fan hon byddai iard frics wedi bod a'r hyn a welwch ar waelod bob tŷ yw gorsaf lanhau esgidiau. Twll bach yn y wal ydyw, gyda bar metel y tu mewn iddo. Byddai'r dynion yn dychwelyd adref o'r gwaith gydag esgidiau mwdlyd iawn a byddai angen iddynt eu glanhau cyn mynd i mewn i'r tŷ. Yn ddiweddarach roeddent yn cael eu defnyddio gan y dyn llaeth i ddal poteli llaeth.




Roedd gan Dregatwg lawer o chwareli a oedd yn cloddio cerrig ar gyfer llawer o'r adeiladau, ond roedd yna iard frics hefyd. Yn ôl pob tebyg, roedd y brics gorau yn cael eu gwneud yn Iard Frics Coldbrook gan mai'r rheiny oedd y caletaf. Cawsant eu stampio â 'Arkell'.

Nawr cerddwch i waelod y bryn.

**Crystal Springs**

Chwarel oedd yr ardal hon yn wreiddiol, ond cafodd ei defnddio fel depo yn ddiweddarach i storio dŵr mwynol o'r enw 'Crystal Springs'. Mae llawer o bobl wedi dod o hyd i hen labeli potel ar y tir hwn ac mewn cloddiau cyfagos. Byddai'r poteli wedi edrych fel hyn.




Nawr cerddwch yn ôl i fyny'r bryn. Allwch chi weld yr hen bolyn lamp? Beth yw e?

**Yr Awyrell Nwy**

Dyma hen awyrell nwy a gafodd ei hadeiladu ym 1890. Wrth ymyl y gorchuddion draeniau yn y ffordd, allwch chi weld un sy'n dweud Barry & Cadoxton Sewers, neu C & BS? Byddai'r awyrell nwy hon yn defnyddio'r nwy methan o'r carthffosydd i greu golau ar y top. Byddai wedi goleuo'r ardal gyfan hon.




Os cerddwch chi i Ysgol Gynradd Tregatwg gallwch weld darn arall o hanes Tregatwg. Mae ar y palmant yn union y tu allan i giât ysgol Tregatwg. Allwch chi weld gorchudd twll yn y ddaear?

Mae'r enw 'Barry and Cadoxton Water Works' arno ac mae'n dangos sut yr oedd y Barri a Thregatwg yn drefi ar wahân yn wreiddiol.

**Pethau i'w hystyried ar ôl eich taith gerdded**

Ar ôl i chi ddychwelyd i'r ysgol, efallai y byddech am:
-Ymchwilio i'r Dociau: Pwy oedd yn gweithio yma? Sut oedd eu bywyd?
-Creu cyflwyniad ar 'y Chwildro Diwydiannol yn y Barri'.

# Y Chwildro Diwydiannol

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| D | I | W | Y | D | I | A | N | T | O | S | E | C | A |
| C | K | O | O | R | B | D | L | O | C | B | L | C | A |
| I | A | I | L | O | M | G | A | R | O | C | I | E | U |
| T | O | D | W | C | S | D | L | D | R | O | H | A | G |
| R | W | D | O | S | C | W | A | O | I | D | I | G | M |
| A | L | C | A | G | S | W | A | T | F | C | I | Y | G |
| R | K | W | C | I | L | G | E | L | O | I | O | M | D |
| A | B | A | R | R | W | G | L | D | D | L | O | C | D |
| S | L | A | I | R | C | H | W | A | R | E | L | I | O |
| A | E | O | S | W | T | R | E | G | A | T | W | G | W |
| O | L | W | I | E | O | O | I | A | L | M | E | O | I |
| H | T | E | A | I | L | E | O | G | R | E | F | O | B |
| R | W | I | L | E | D | D | K | L | L | E | K | R | A |
| R | G | W | D | A | W | C | O | M | I | S | I | W | N |

BARRWG
CHWAREL
COMISIWN
ARKELL
DIWYDIANT
CADOG
CRISIAL
DOCIAU
OSWALD
OFERGOELIAETH
GLO
TREGATWG
COLDBROOK


# Hen Lwybr y Plwyf

Taith gerdded yn dechrau ar risiau Hen Lwybr y Plwyf ac yn dod i ben yn Hen Eglwys Plwyf Sant Cadog. Crwydrwch Lwybr y Plwyf sydd newydd ei glirio a gwnewch eich ffordd i'r Eglwys. Dysgwch fwy am Sant Cadog, y Gofeb Ryfel, William Jenkin ac Ann Jenkin.

**Croeso i'n taith gerdded. Ydych chi'n barod i gerdded yn ôl mewn amser?**

Cerddwch at y grisiau ar ochr chwith y parc.

**Cymerwch gam**



Rydych chi'n sefyll ar risiau Hen Lwybr y Plwyf. Byddai pobl wedi defnyddio'r llwybr hwn fel eu prif ffordd i mewn i'r pentref.

**Hen Lwybr y Plwyf**
Dyma oedd y brif ffordd i'r eglwys. Byddai pobl y pentref yn gwisgo eu dillad gorau ac yn cerdded i lawr y bryn tuag at Eglwys Sant Cadog.

Mae'r llwybr hwn yn cael ei alw'n Fancyn Ginger hefyd. Roedd ceffyl o'r enw Ginger yn arfer byw yn y cae ar hyd y llwybr. Allwch chi weld y giât i'r cae ar y dde?

Tynnwch lun o Ginger y ceffyl yma:

**Tir Sanctaidd**
Wrth i chi groesi tuag at Eglwys Sant Cadog rydych chi'n cerdded ar dir sanctaidd. Pan geision nhw gloddio'r tir hwn ym 1891, daethon nhw o hyd i hoelion o goffinau ac esgyrn dynol o dan y ddaear. Ar ôl darganfod y rhain, gadawon nhw'r tir heb ei gyffwrdd.



Daliwch i gerdded tan i chi gyrraedd gatiau Eglwys Plwyf Sant Cadog.

**Sant Cadog**
Roedd Sant Cadog, oedd yn cael ei adnabod fel 'Catwg Ddoeth' hefyd, yn

fab i Frenin lleol a fe yw un o'r seintiau Celtaidd pwysicaf ym Mro Morgannwg. Cafodd ei eni yn y flwyddyn 500OC a sefydlodd y mynachdy yn Llancarfan. Mae sawl eglwys â chysylltiad ag e yn Llydaw, Ffrainc. Byddai'n ymweld â Llydaw yn rhan o'i bererindod grefyddol. Daeth Sant Cadog yn adnabyddus fel athro a roddodd ei fywyd cyfan i wasanaethu ei gymuned.

Disgybl Sant Cadog oedd Sant Barrwg. A wyddoch chi fod y Barri wedi'i enwi ar ôl Sant Barrwg?

Agorwch y gatiau ac ewch i mewn. Allwch chi ddod o hyd i'r Gofeb Ryfel?

**Y Gofeb Ryfel**

Mae'r Gofeb wedi'i hadeiladu ar sylfeini Croes Ganoloesol. Mae ganddi bedwar gris yn sylfaen iddi ac mae wedi'i lleoli i'r de o'r eglwys. Mae'n gofeb i'r Rhyfel Byd Cyntaf a chafodd ei chreu ym 1922. Allwch chi weld yr enwau ar y gofeb? Allwch chi weld unrhyw wahaniaeth rhwng y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd?

Yn y Rhyfel Byd Cyntaf collodd 109 o ddynion o Dregatwg eu bywyd. Ar y 16eg o Orffennaf 1917, roedd y llong SS Ribston yn cario cargo o Fwyn Haearn. Cafodd ei chwalu'n sydyn gan dorpido llong danfor U-45 yr Almaen. Suddodd y llong ynghyd â chriw o 25 o forwyr, gan gynnwys naw dyn o'r Barri.

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, roedd angen dynion i weithio ar y Dociau yma yn y Barri, felly ni aeth llawer ohonynt i'r rhyfel. Golygodd hyn na farwodd cynifer o ddynion. Ewch ati i ysgrifennu rhai o'r enwau a welwch. Ar ôl dychwelyd i'r ysgol, efallai y gallech chi ymchwilio iddyn nhw i ddod o hyd i ffrindiau neu deulu gyda'r un cyfenw?

Nodwch yr enwau yma:

| |
|---|
| Enw 1: |
| Enw 2: |
| Enw 3: |

Mae'r eglwys yn adeilad rhestredig Gradd II sy'n golygu ei bod hi'n hen iawn ac yn bwysig. Mae'n dyddio'n ôl i'r 12fed Ganrif ac rydyn ni'n credu y cafodd ei hailadeiladu yn y 15fed Ganrif. Pa ganrif ydyn ni ynddi nawr?


Allwch chi weld ffenestr a drws sydd wedi'u cau erbyn hyn â brics? Mae hyn yn dweud wrthym bod yr adeilad wedi cael ei newid a'i addasu. Mae 'to trumiog' i'r eglwys hon, yn ogystal â thŵr a chorff eglwys. Allwch chi weld y tŵr a chorff yr eglwys? Mae gan y tŵr ffenestr. Mae carreg y gangell (yr ardal o amgylch yr allor) sydd wedi'i phaentio'n wyn yn gwrthgyferbynnu â chorff yr eglwys sydd mewn carreg blaen.

Ar ddiwedd y 14eg ganrif, y teulu Andrew oedd yn berchen ar y faenor ac rydyn ni'n credu y rhoddon nhw lawer o arian i helpu i ailadeiladu'r eglwys. Cafodd y cyntedd y gallwch ei weld ei ychwanegu yn y 16eg ganrif.

**Gwrachod a Dewiniaid**

Allwch chi ddod o hyd i fedd Dewin y Barri, William Jenkin? Mae e ychydig o'ch blaen ar y chwith.

Yn ôl hanes, Ann Jenkin oedd Gwrach Porthceri. Roedd hi'n swyno'r bobl yr oedd hi'n cwrdd â nhw. Dechreuodd pethau rhyfedd ddigwydd fel tarw yn cael ei glymu wrth ei gyrn mewn gwrych. Roedd hi'n enwog yn y Barri am fod yn ddrygionus iawn a dial ar ei chymdogion. Roedd hi'n byw yn Cliff Wood Cottage gyda'i dau fab William a Robin, ac roedd pobl yn credu bod ganddyn nhw bwerau hefyd. Symudodd William i Dregatwg o'r Barri rywbryd tua 1745-47, gan ei fod yn bentref mwy o faint ar y pryd gyda mwy o gyfleoedd. Cafodd ei enwi'n Ddewin Tregatwg a bu'n rhedeg gwasanaeth benythca arian, gan godi elw uchel. Doedd e ddim yn boblogaidd iawn gyda'r bobl leol. Doedd neb yn gwybod o ble ddoth ei arian. Efallai bod ei fam wedi gwneud swyn.



Yr hen air Cymraeg am wrachod a dewiniaid yw Rheibwr, a dyma beth fyddai pobl wedi galw William ac Ann. Roedd pobl Tregatwg yn ofergoelus tan ddechrau'r 20fed ganrif, ac yn galw pobl yn 'Rheibwrs' os oeddynt yn gwneud unrhyw beth rhyfedd. Ym 1909 ysgrifennodd Marie Trevelyan stori gwerin am Fleidd-ddynion Tregatwg. Felly ar un adeg yn y gorffennol, roedd gwrachod, dewiniaid a bleidd-ddynion i gyd yn byw yma yn Nhregatwg.

Gadewch yr eglwys a throwch i'r chwith, gan barhau ar hyd Coldbrook Road West.

Allwch chi weld twll yn y wal ar eich chwith? Beth ydych chi'n meddwl oedd ei bwrpas? Roedd artist yn byw yma yn yr 20fed ganrif, Marie Press (ond ei henw go iawn oedd Mrs Clissold). Roedd hi'n cadw ieir a thwll ieir oedd hwn oedd yn eu galluogi i grwydro a chael rhywfaint o ymarfer corff.

**Golden Grove**

Dyma un o'r tai hynaf yn y pentref. To gwellt fyddai wedi bod ganddo'n wreiddiol, ond erbyn hyn mae gennym doeau llechi. Dydy'r adeilad hwn ddim yn rhestredig, fel yr eglwys, ond mae wedi'i rhestru'n lleol fel 'Trysor y Sir'. Dyma oedd cartref y dewin William Jenkin, a brynodd y tŷ ym 1776. Arhosodd yn y teulu tan 1874.

Roedd pobl yn credu bod dewiniaeth yn dilyn yn y teulu, felly cafodd ei fab Robert ei alw'n Robin y Rheibwr. Ond roedd 'rheibwr' yn gallu defnyddio ei bwerau er da neu ddrwg, ac roedd Robin yn cael ei gofio am ei weithredoedd caredig. Roedd yr enw Robin yn rhedeg yn y teulu a chafodd gor-wyr William ei alw'n Robin y Rheibwr hefyd. Mae'n debyg bod Lôn Robin wedi cael ei henwi ar ei ôl e hefyd.

**Pethau i'w hystyried ar ôl eich taith gerdded**

Ar ôl i chi ddychwelyd i'r ysgol, efallai y byddech am:

- Ymchwilio i Sant Cadog: Beth wnaeth e? Pam oedd e'n Saint?
- Ymchwilio i'r Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd a sut effeithion nhw ar y Barri. Cafodd llawer o fomiau eu gollwng yma.
- Ymchwiliwch i ofergoelion Cymreig, e.e. mae Marie Trevelyan yn disgrifio nifer o ofergoelion yn ei llyfr, gan gynnwys: 'A spring in Cadoxton flowed abundantly in an unfruitful year; but if the water was slow in coming, there would be plenty of crops, grain and sheep.'
- Creu cyflwyniad ar 'Llwybr yr Hen Blwyf'.

# Hen Lwybr y Plwyf

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| T | D | H | E | L | N | C | G | O | D | A | C | F | O |
| W | N | S | G | R | W | B | I | E | H | R | Y | Y | E |
| N | H | A | L | E | W | N | F | Y | L | W | O | S | F |
| C | S | F | S | R | H | Y | F | E | L | V | D | O | A |
| T | L | N | I | L | G | H | A | P | F | H | E | R | D |
| E | B | B | B | E | C | O | F | E | B | F | W | F | G |
| R | O | H | A | U | O | V | C | C | G | A | I | T | E |
| T | D | D | I | A | T | L | E | C | D | D | N | S | B |
| L | D | D | G | I | T | A | E | G | L | W | Y | S | A |
| R | B | A | W | C | T | A | N | F | O | R | R | G | R |
| F | H | B | E | O | R | R | I | S | N | I | S | F | R |
| G | B | G | G | D | H | B | W | W | S | S | I | F | W |
| I | G | C | R | E | S | H | C | A | R | W | G | H | G |
| I | N | L | A | T | R | E | V | E | L | Y | A | N | A |

PLWYF
CADOG
SINSIR
TANFOR
BARRWG
TREVELYAN
DEWIN
DOCIAU
CELTAIDD
SANT
COFEB
RHYFEL
GWRACH
RHEIBWR
EGLWYS

# Taith o Amgylch yr Ysgol

Taith gerdded sy'n canolbwyntio ar hanes Ysgol Gynradd Tregatwg, Thomas Ewbank a'r Hen Ysgoldy. Dysgwch am brofiadau'r plant yn y gwahanol ysgolion yn y gorffennol. Sut brofiad fyddai'r ysgol wedi bod iddynt?

**Croeso i'n taith gerdded. Ydych chi'n barod i gerdded yn ôl mewn amser?**

Ewch i fynedfa Ysgol Gynradd Tregatwg.

**Ysgol Gynradd Tregatwg**



Allwch chi weld y dyddiad ar yr ysgol? Cafodd yr ysgol gyntaf ar y safle hwn ei adeiladu ym 1879. Roedd 72 o blant yn mynd iddi ar yr adeg honno.

Gofynnwch i'ch athro, faint o blant sy'n mynd i'ch ysgol chi?

Ym 1887 cafodd yr ysgol ei gwneud yn fwy o faint ac ychwanegwyd tŵr cloch. Gallai 241 o blant fynd i'r ysgol erbyn hynny. Cafodd yr estyniad diwethaf ei ychwanegu ym 1895.


Sut brofiad fyddai mynd i'r ysgol yn y 19eg ganrif yn eich barn chi?

Yn hanner cyntaf y 1800au, roedd dosbarthiadau'n enfawr. Weithiau roedd mwy na 100 o ddisgyblion ym mhob dosbarth. Roedd pobl yn cyfeirio at ystafell ddosbarth yn oes Fictoria fel 'Ystafell Ysgol'. Roedd disgyblion oes Fictoria yn eistedd wrth ddesgiau ffrâm haearn. Roedd y rhain fel arfer mewn rhesi yn sownd i'r llawr ac yn wynebu blaen yr ystafell ddosbarth. Roedd athrawon yn dysgu pynciau fel darllen, ysgrifennu, rhifo, hanes, gramadeg, rhethreg a daearyddiaeth.

Tynnwch lun o 'ystafell ysgol' oes Fictoria yma:

Nawr cerddwch draw i ochr chwith Parc Fictoria ac ewch i'r tŷ o'r enw Pen-y-Bryn.

**Pen-y-Bryn a Thomas Ewbank**




Dyma oedd cartref Thomas Ewbank, sef Pennaeth cyntaf Ysgol Gynradd Tregatwg. Dechreuodd ym 1879 gan ymddeol ym 1921. Gwelodd lawer yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnwys adeiladu'r dociau.

Roedd Mr Ewbank yn awdur hefyd. Yr enw ar ei lyfr cyntaf oedd 'The Geography and History of Barry' a chafodd ei gyhoeddi ym 1921. Daeth yn adnabyddus fel llawlyfr bach llawn gwybodaeth i blant lleol. Erbyn hyn, mae haneswyr lleol wrth eu bodd yn darllen am sut le oedd y Barri yn y gorffennol.

**Rhif 2 Sea View Terrace**

Allwch chi weld y tŷ drws nesaf? Roedd Tom Yeoman yn byw yma. Roedd yn athro yn Ysgol Tregatwg ac yn gyn Faer Tref y Barri. Roedd hefyd yn Chwaraewr Bowls Rhyngwladol Cymru. Ydych chi erioed wedi chwarae bowls?

Nawr eich i lawr Church Road.

**Church Road**




Edrychwch ar y tai. Ydych chi'n sylwi ar unrhyw beth? Allwch chi weld patrwm uwchben y drysau a'r ffenestri?

Rydyn ni'n credu yr oedd y Saeson oedd yn byw ar y stryd hon yn byw mewn tai heb addurn uwchben eu drysau ac roedd y Cymry yn byw mewn tai ag addurn. Yn ôl pob sôn, roedd y Cymry yn defnyddio'r patrwm i gadw'r ysbrydion drwg i ffwrdd.

Rhowch gynnig ar dynnu siapiau'r ddeilen yma:

Mae gan Gymru lawer o ofergoelion ac mae pobl wedi ysgrifennu amdanynt ers amser maith. Yn ystod y 19eg ganrif roedd y bobl oedd yn byw yng nghefn gwlad Sir Forgannwg, yn enwedig y bobl hŷn 'yn credu'n gryf mewn ysbrydion, rhybuddion a chanhwyllau corff.' Golau'n neidio yr oedd pobl yn meddwl ei bod nhw'n ei weld oedd cannwyll corff, ac roedden nhw'n credu ei fod yn arwydd y byddai rhywun yn marw cyn bo hir. Roedd pobl ledled Cymru, nid yn unig yn y Barri a Sir Forgannwg, yn credu hyn.

Ydych chi ar waelod y bryn? Allwch chi weld adeilad du a gwyn ar draws y ffordd?



**Yr Hen Ysgoldy**

Mae'r Hen Ysgoldy yn adeilad rhestredig Gradd II sy'n golygu ei fod yn hen iawn ac yn bwysig. Agorodd Ysgol Genedlaethol Tregatwg ym 1847. Pa liw yw'r ysgol hon?

Adeiladwyd yr ysgol mewn cerrig ar hap wedi'u paentio'n wyn, gyda chonglfeini cerrig wedi'u paentio'n ddu, sy'n cael eu copïo ar y ffenestri. Cerrig wedi'u rhoi ar onglau yw conglfeini, sy'n bennaf yn cael eu defnyddio fel addurn. Allwch chi eu gweld? Mae'r to ar oleddf serth wedi'i wneud allan o lechi Cymreig. Mae hwn yn adeilad anarferol iawn, er ei fod yn ddyluniad syml.

Ysgol Eglwysig oedd hon ac enw'r Pennaeth oedd Mrs Greatrex. Roedd hi'n wraig i'r cigydd lleol. Roedd Ysgolion Eglwys yn boblogaidd iawn yn y 19eg Ganrif. Roedden nhw'n rhoi cyfle i blant o deuluoedd tlawd dderbyn rhywfaint o addysg sylfaenol, fel arfer y gallu i ddarllen. Yn aml byddai'r disgybl disgleiriaf yn y dosbarth yn addysgu'r disgyblion eraill. Allwch chi ddychmygu gwneud hynny? Roedd llawer o gamgymeriadau yn eu haddysg ac yn fuan roedd gan ysgolion fel hyn athrawon wedi'u hyfforddi'n gywir.

Roedd mwyafrif y bobl yn Nhregatwg yn ystod y 19eg Ganrif yn siarad Cymraeg a dim ond 242 o bobl oedd yn byw yma.

Ond nid hon oedd yr ysgol gyntaf yn Nhregatwg. Roedd adeilad arall yn sefyll ar hyd y Coldbrook. Adeiladodd Cymdeithas Lesiant yr Odyddion res o dai cardod ger y Coldbrook ar ddiwedd y 18fed ganrif. Roedd y Gymdeithas yn hyrwyddo ewyllys da a chytgord ymhlith pobl a chenhedloedd. Roedden nhw'n credu bod pob dyn a menyw, waeth beth fo'i hil, cenedligrwydd, crefydd a chenedl yn frodyr a chwiorydd. Cafodd Tŷ yr Odyddion ei ddymchwel ym 1932. Roedd wedi'i leoli i'r de o'r bythynnod ac yno yr oedd ysgol gyntaf y pentref. Gallai hyn fod wedi bod mor gynnar â 1791.

**Pethau i'w hystyried ar ôl eich taith gerdded**

Ar ôl i chi ddychwelyd i'r ysgol, efallai y byddech am:

- Ymchwilio i Ysgol Gynradd Tregatwg.
- Ymchwilio i Thomas Ewbank a darllen rhannau o'i lyfr.
- Creu cyflwyniad ar 'Sut brofiad oedd mynd i'r ysgol yn y 19eg Ganrif'.

# Taith o Amgylch yr Ysgol

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| H | T | E | A | I | L | E | O | G | R | E | F | O | E |
| O | R | H | I | F | Y | D | D | E | G | A | I | S | D |
| D | E | W | R | L | D | D | A | R | N | Y | C | Y | A |
| D | G | P | E | N | Y | B | R | Y | N | W | S | D | E |
| F | A | L | B | Y | D | G | E | A | D | S | L | O | A |
| E | T | A | R | P | S | R | R | S | D | M | A | E | R |
| L | W | I | A | I | I | E | E | W | B | A | N | K | Y |
| L | G | D | O | C | I | A | U | A | H | D | D | Y | D |
| O | P | R | I | F | A | T | H | R | A | W | E | S | D |
| W | E | G | D | F | Y | R | R | W | I | O | N | G | I |
| S | C | Y | A | A | N | E | P | R | D | N | I | O | A |
| H | A | N | E | S | I | X | R | M | A | E | R | L | E |
| C | A | N | R | I | F | A | C | N | W | S | O | D | T |
| F | Y | Y | G | A | B | E | G | L | W | Y | S | Y | H |

ODDFELLOWS
BARRI
PENYBRYN
MAER
YSGOLDY
OFERGOELIAETH
HANES
CYNRADD
DAEARYDDIAETH
GREATREX
TREGATWG
RHIFYDDEG
EWBANK
PRIFATHRAWES
DOCIAU
EGLWYS
CANRIF